# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023

**2023 dsc 3**

## RHAN 3

ADEILADAU O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

## PENNOD 4

GORFODI RHEOLAETHAU SY'N YMWNEUD AG ADEILADAU RHESTREDIG

*Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodi*

PROSPECTIVE

### 132 Adennill costau cydymffurfio â hysbysiad gorfodi

(1) Pan fo awdurdod cynllunio yn arfer y pwerau o dan adran 131(1) i fynd ar dir a chymryd cam sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi, caiff yr awdurdod adennill oddi wrth berson sydd ar y pryd yn berchennog ar y tir y costau y mae'n mynd iddynt yn rhesymol wrth wneud hynny.

(2) Os yw awdurdod cynllunio yn ceisio adennill costau o dan is-adran (1) oddi wrth berchennog ar dir—

(a) y mae ganddo hawlogaeth i gael crogrent y tir dim ond fel asiant neu ymddiriedolwr ar gyfer person arall (y "penadur"), a

(b) nad oes ganddo, ac nad oedd ganddo ar unrhyw adeg ers y diwrnod pan fynnwyd bod y costau yn cael eu talu, ddigon o arian ar ran y penadur i dalu'r costau yn llawn,

mae atebolrwydd yr asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gyfyngu i gyfanswm yr arian y mae'r asiant neu'r ymddiriedolwr wedi ei gael ar ran y penadur ers y diwrnod hwnnw.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 132 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

(3) Os yw is-adran (2) yn atal awdurdod cynllunio rhag adennill y cyfan o'i gostau oddi wrth asiant neu ymddiriedolwr, caiff eu hadennill oddi wrth y penadur, neu'n rhannol oddi wrth y penadur ac yn rhannol oddi wrth yr asiant neu'r ymddiriedolwr.

(4) Pan fo copi o hysbysiad gorfodi wedi cael ei gyflwyno mewn cysylltiad ag adeilad rhestredig, mae—

(a) costau y mae perchennog neu feddiannydd ar yr adeilad yn mynd iddynt at ddiben cydymffurfio â'r hysbysiad, a

(b) symiau y mae perchennog ar dir yn eu talu o dan is-adran (1) mewn cysylltiad â chostau y mae'r awdurdod cynllunio yn mynd iddynt wrth gymryd camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad,

i'w trin fel pe aed iddynt neu pe baent wedi eu talu at ddefnydd ac ar gais y person a gyflawnodd y gwaith y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef.

(5) Mae'r costau y gellir eu hadennill gan awdurdod cynllunio o dan is-adran (1), hyd nes iddynt gael eu hadennill, yn bridiant ar y tir y mae'r hysbysiad gorfodi yn ymwneud ag ef.

(6) Mae'r pridiant yn cymryd effaith fel pridiant tir lleol ar ddechrau'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r awdurdod yn cwblhau'r cam y mae'r costau'n ymwneud ag ef.

(7) Mae is-adran (8) yn gymwys pan—

(a) bo awdurdod cynllunio yn symud ymaith ddeunyddiau o dir yng nghwrs cymryd camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi, a

(b) na fo perchennog y deunyddiau, o fewn 3 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu symud ymaith, yn hawlio'r deunyddiau ac yn mynd â hwy i ffwrdd.

(8) O ran yr awdurdod cynllunio—

(a) caiff werthu'r deunyddiau, a

(b) os yw'n gwneud hynny, rhaid iddo dalu'r enillion i'r person a oedd yn berchen ar y deunyddiau, ar ôl didynnu unrhyw gostau y gall yr awdurdod eu hadennill oddi wrth y person.

(9) Ni chaiff awdurdod cynllunio adennill costau o dan yr adran hon oddi wrth y Goron.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 132 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 212(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 15/06/2023. Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, Adran 132 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 14 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.